

C. Ff. I. PENYBONT yma i'ch helpu



Aelodau'r Clwb yn perfformio'r garol Tawel Nos yn rhithiol



Rhai o'r hamperi a greuwyd ac a werthwyd gyda'r elw i 'MIND' Cymru.

Gwelir adroddiad llawn ar dudalen 7

PWYSIG

Ni fyddwn yn argraffu rhifyn o'r Cardi Bach ym mis Chwefror ond rydym yn gobeithio cael rhifyn mis Mawrth mas yn y siopiau ar yr amser arferol.

Tanysgrifio

Os ydych yn cael trafferth sicrhau copi o'r Cardi Bach, mae croeso i chi danysgrifio er mwyn derbyn copi drwy'r post. Cysylltwch gyda Roy Llewellyn ar 01994 448283 i drefnu hyn.

Tynfa Clwb 200

Byddwn yn cynnal sesiwn agored drwy gyfrwng zoom i dynnu rhifau buddugol ein Clwb 200 a'r nos Sul, Chwefror 7fed am 5 o'r gloch. Ymunwch a ni i weld pwy fydd yn ennill yr holl wobrau, bydd y gwobrau mawr o £100, £200, £300 a £500 yn cael ei cyhoeddi ar y diwedd. Dyma'r manylion ar gyfer cael mynediad:

Rhif adnabod (ID) 86956854099 • Cyfrinair 7221

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a	Eurfyl Lewis
Dosbarthwr	01994 419495
Ysgrifenyddes:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Ffotograffydd,	
Dosbarthwr	
drwy'r post a	Roy Llewellyn
Hysbysebion:	01994 448283
Ffotograffydd	Mel Jenkins
Cynorthwyol:	01994 240411
Dosbarthwr	Roy Llewellyn
drwy'r post:	01994 448283
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr::	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	
Cornel Coginio:	Winnie James 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Clêr

Nodyn i'r Dyddiadur

Yn wahanol i bob blwyddyn arall, dydw i ddim wedi clywed rhyw lawer o sôn am addunedau blwyddyn newydd eleni. Ond dyw hon ddim yn flwyddyn arferol, wrth gwrs. Gyda chymaint o bethau wedi eu haberthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n bur debyg nad yw Ionawr sych mor apelgar. A phwy sy'n becco am golli pwysau, yn nyddiau colli rhyddid.

Fel arfer, mae dechrau'r flwyddyn yn amser i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod – rhywbeth i edrych ymlaen ar ei gyfer, boed hynny'n drefnu gwyliau, archebu plot y garafan, neu drefnu ymarferion Eisteddfodau Cylch! Dyma'r adeg i brynu dyddiadur newydd, a hwnnw'n cael ei lenwi'n raddol, dudalen wrth dudalen. Ond nid eleni.

Bellach, nid gwyliau, ymarferion neu gyfarfodydd sydd ar frig ein meddyliau, ond yn hytrach yr hyn na ellir ei lenwi mewn dyddiadur. Mae pryder am les ac amgylchiadau perthnasau a ffrindiau ym meddyliau'r mwyafrif, a chydymdeimlad gyda'r rhai sy'n dioddef ar hyn o bryd.

Ry'n ni hefyd yn gorfod pwysu a mesur yr hyn sy'n angenrheidiol yn ein bywydau. Byddai rhai yn dadlau nad yw hynny'n ddrwg o beth, mi dybia i. Ac mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn hanfodol, wedi peri tipyn o ddryswch a dadlau croch. Ydy bwlw golau, brwsh llawr, neu shampw yn hanfodol? Dyna sy'n cael ei drafod mewn sawl cartref, mae'n siŵr. Ac er bod hynny'n codi gwen, mae'n adlewyrchiad o'r oes undonog hon.

Efallai bod y dyddiadur yn wag ar hyn o bryd, ond fe fydd un apwyntiad hanfodol bwysig ynddo yn fuan gobeithio. Hwnnw fydd y nodyn pwysicaf yr ydw i erioed wedi ei lenwi mewn unrhyw ddyddiadur, mewn unrhyw flwyddyn, sef dyddiad ac amser y brechiad. Yng nghanol prysurdeb arferol bywyd, mae rhywun yn medru anghofio apwyntiadau yn hawdd, hyd yn oed os ydyn nhw yn y dyddiadur. Ond go brin fod unrhywun yn mynd i anghofio apwyntiad sy'n ddechrau'r daith i ryddid.

Gyda'r dyddiadur yn segur, mae'r cyfnod hwn wedi rhoi cyfle i ni bwysu a mesur yr hyn sy'n bwysig yn ein bywydau, a'r hyn na all hyd yn oed Covid-19 ei drechu. Efallai bod y feirws hwn yn achosi tensiynau, ond dyw e ddim wedi ein rhwystro rhag meddwl am eraill. Dyw e chwaith ddim wedi ein rhwystro rhag cyfathrebu â'n gilydd, boed hynny drwy'r we, y ffôn, neu trwy gyfrwng radio a theledu. Ac os oes unrhywun yn teimlo'n unig ar hyn o bryd, cofiwch mai cymuned glos yw'r Cardi Bach, nid papur i'w ddarllen yn unig. Mae rhywun wastad ar gael ben arall y ffôn am sgwrs fach, ac i roi'r byd rhyfedd hwn yn ei le.

Wnewn ni fyth anghofio'r cyfnod hwn, ond fe fydd y brechlyn yn garreg filltir bwysig yn y frwydr hon yn erbyn gelyn llechwraidd. Ydy mae e'n dal ei dir yn gadarn ar hyn o bryd, ond mae'r cyfnod rhyfeddol hwn wedi profi ein bod ni fel bodau dynol yn medru addasu, hyd yn oed oes yw'n bywydau wedi troi ben i waered.

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa
Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWM MILES:	Meinir Eynon 01437 563540
CWMFELIN	Nansi Evans
MYNACH:	01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Mel Jenkins 01994 240411 j.jenkins736@btinternet.com
	Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN:	Meinir Eynon 01437 563540
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Una Williams 01994 484372
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilyr Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR**Gwedd**

Y mae'r amseroedd yn anodd ac mae pobl yn ofnus. Er ein holl addysg a gwybodaeth gwyddonol, 'rydym yn wynebu gelyn nad ydym yn ei ddeall nac yn medru ei orchfygu eto.

Ein Tad, cyflwynwn i'th sylw bawb yn y gwasanaeth iechyd a gofal sydd yn edrych ar ôl y cleifion, y gwyddonwyr sy'n ceisio'r feddyginiaeth fydd yn gwella, a phawb sydd yn cadw olwynion cymdeithas i droi.

Prif nodwedd ein bywydau ar y foment yw pellter – pellter o bopeth a phob un sydd yn gyfarwydd i ni. Diolchwn am bob dyfais dechnolegol sydd yn ein cysylltu â'n gilydd, ond edrychwn ymlaen yn amyneddgar at y dydd pan fyddwn yn medru cyfarfod â phawb wyneb yn wyneb – ein teuluoedd a'n ffrindiau mynwsol. ein cyd-Gristnogion mewn oedfa, cwrdd gweddi, pwyllgor a chynhadledd.

Yn y sefyllfa yma, yr wyt Ti, ein Tad, yn agos atom "wrth law o hyd i wrando cri". Pwyswn ar dy gariad a'th nerth i'n cefnogi. Mae'r llwybr o'n blaenau yn annelwig a'r canlyniad efallai yn y fantol. Yr unig sicrwydd yw Dy fod yn cerdded pob cam o'r daith gyda ni ac ymddiriedwn yn y gobaith a'r iachawdwriaeth a ddaw o'th ddilyn Di.

Amen

(allan o Seren Cymru)

ENNILL HAMPER NADOLIG Y CARDI BACH



Eurfyl Lewis, Cadeirydd Y Cardi Bach yn cyflwyno hamper i Gwenda Mathias o Hermon, sy'n ei dderbyn ar ran ei merch Elaine, enillydd ein cystadleuaeth ar ein Tudalen Facebook. Llongyfarchiade mowr i Elaine.



Aeres Williams
Hyfforddwraig Gyrru
Glandy Cross, Clunderwen
Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551
aeresannadi@hotmail.co.uk

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

CYSTADLEUAETH

gan John Arfon

Yn gyntaf hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ichwi i gyd, a gobeithiaf yn fawr y bydd yn llawer gwell na'r un llynedd.

Yn anffodus collwyd dwy oeddwn yn adnabod yn dda dros yr Ŵyl sef Doris Rogers, Clare House, Heol y Gogledd, Hendygywyn a Dilys Richards o Hendygywyn hefyd, ond wedi bod yng Nghartref Dôl y Felin yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w teuluoedd oll ac i unrhyw rai eraill sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Dyma atebion cystadleuaeth Medi, sef Croesair y Rhifau :-

Ar Draws

1. 1969, 4. 1840, 6. 01437, 7. 50, 8. 76, 10. 007, 13. 999, 14. 911, 16. 112, 18. 01222, 20. 212, 21. 639, 24. 100, 25. 111, 26. 15, 29. 90, 30. 01248, 31. 4840, 32. 1212.

I Lawr

1. 17600, 2. 900, 3. 147, 4. 177, 5. 01492, 7. 579, 9. 692, 11. 21120, 12. 01267, 15. 101, 17. 123, 19. 01994, 20. 201, 22. 910, 23. 01792, 27. 500, 28. 125, 29. 981.

Ymddiheuraf am y gwall yn 18 ar draws. Dylwn fod wedi gofyn am gôd ffôn Caerdydd cyn iddo newid yn y flwyddyn 2000. Oherwydd hynny fe aeth aml ymgais ar gyfeiliorn, ond am fy mai oedd o aeth pob un ateb i mewn i'r het.

Y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac sy'n ennill y wobr o £5 yw Hevina Jones, Eithinduon Uchaf, Meidrim gyda Peter Crowdie, Parc Villa, San Clêr yn ennill yr ail wobr o lyfr. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i'r holl gynigion isod a ddaeth i law.

Eric Hughes, Phyllis Hughes, Nesta Rees, Rita James, Pwlltrap; John Lewis, Meidrim; Nesta Howells, Bancyfelin; Eilyr Thomas, Llandysilio a Dorothy Williams, Efailwen.

Dyma atebion y cwrosw a'r chwilrif yn rhifyn y Nadolig

X	O	X	O	X	O
X	X	O	X	O	O
O	X	X	O	O	X
O	O	X	O	X	X
X	O	O	X	X	O
O	X	O	X	O	X

3	2	9	5	4	6	7	1	8
8	4	7	9	1	3	5	2	6
5	6	1	7	8	2	9	3	4
4	7	3	6	5	9	2	8	1
9	1	2	4	7	8	6	5	3
6	5	8	3	2	1	4	7	9
1	9	4	2	3	7	8	6	5
7	3	5	8	6	4	1	9	2
2	8	6	1	9	5	3	4	7

Dyma ddau chwilrif i'ch diddori - nid oes gwobrwyon am y rhain.

Dylech fod yn gwybod y rheolau sut i'w cwblhau erbyn nawr.

		1	8					
			9		5			2
3							1	5
	3			7				1
1					8	6		9
	8	9		4				
			7	2			6	
		8						
	4		6				3	

	6		9	3	2			
	1			8				
	4	3					6	2
				5				
5	3				7	6		
4					6	1	3	
	7					4	5	6
			7					3
				9	8		2	

A dyma ddau Cwrosw arall i'ch diddori

Mae'r rheolau yn weddol syml - dim ond dwy sydd.

1. Llenwch pob blwch gyda dim (O) neu groes (X). fel nad oes mwy na dau ddim neu dwy groes yn dilyn eu gilydd newn unrhyw linell neu golofn yn y grid. Nid yw'r ddwy linell cornel i gornel yn cyfrif.
2. Mae'n rhaid i bob llinell neu golofn gynnwys tri dim a thair croes.

		O			
O		O			
			X		X
	O			O	
X					
	X				


			X		
	O			O	
			X		
X					
		O			O
	O				O

Mae dwy ran i gystadleuaeth y mis yma a rhaid ateb hwynt yn gywir os am ennill y wobr gyntaf o £5 a'r ail wobr o lyfr.

Y rhan gyntaf o'r gystadleuaeth yw cwblhau pŵs yr Olwyn Fawr.

Atebwch y cliwiau odditano a rhowch yr atebion yn yr olwyn o'r canol hyd at yr ymyl. Mae pob ateb yn 6 llythyren o hyd gyda'r llythyren gyntaf yr un fath iddynt i gyd. Os gwnewch hyn yn gywir dylech gael enw nofel Gymraeg trwy ddarllen y blychau llwyd.





Dyma'r cliwiau :-

- | | |
|-------------------------------------|---------------------------|
| 1. Rhiniog | 7. Lle i fyw |
| 2. Arf o blât i amddiffyn ymosodiad | 8. Cartrefi i dlodion |
| 3. Effaith colli pwysau | 9. Yr un sy'n pwysu fwyaf |
| 4. Bar haearn mawr i symud pethau | 10. Tocynnau |
| 5. Gresyn | 11. Atgyweirio |
| 6. Ffordd dan afon Gonwy | 12. Rhywbeth gwerthfawr |

Rwyf wedi enwi yr ail bôs yn "Merched yn bennaf"

Mae pob un o'r cliwiau isod yn rhoi enw merch ichwi. Wedi eu datrys a'u rhoi yn y grid dylech gael enw merch arall o'r Mabinogion wrth ddarllen i lawr y blychau llwyd.

Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren.

- Mis o'r flwyddyn
- Chwaer Cynddylan neu Miss Cynwal
- Ynys uwchben yr Alban
- Cysylltiedig â Barry Humphries
- Gyda Geinor cawn ddeuawd
- Blodau'r mynydd
- Roedd meillion yn tyfu lle cerddai hon
- Un llwyd y Tebot Piws
- Owen oedd cyfenw hon ar y teledu ac un o gariadon Dafydd ap Gwilym

1.					
2.					
3.					
4.					
5.					
6.					
7.					
8.					
9.					

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Mawrth 1af 2021 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr, felly gwnewch yn siwr eich bod wedi ymaelodi am eleni.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen,
Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn:- 01994 231338
e-bost:-
rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Blwyddyn Newydd Dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyd.

Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi ar dudalen 25 yn y rhifyn hwn eto. Os ydych yn dymuno talu fesul archeb banc, cwblhewch y manylion a danfonwch y ffurflen nôl ataf i, os gwelwch yn dda.

Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol.

Diolch i chi a chadwch yn ddiogel, Rhian.

D. E. PHILLIPS

a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

D.J. EVANS
PLYMIO a GWRESOGI



PG - Ailgylchu
Parc Gwynfryn, Crymych,
Sir Benfro. SA41 3RQ

Ffôn: 01239 831818

CBS
CRYMYCH

ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ

Ffôn: 01239 831444

CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Dyma rywbeth i chi ar gyfer Ionawr 2021. Ry'n ni wedi bod yn sownd yn y tŷ ers naw mis heblaw am fynd â'r ci am dro bach pob dydd. Gweddïaf y gall y dosbarthiadau Cymraeg ail dechrau cyn bo hir. Ta waeth plis cadwch yn saff.

Albie

A: Mae Sandra wedi gadel ei bag yma.

B: Cer(after her)

A: Mae'n nhw'n mynd heb eu sgidiau glaw

B: Cer(after them)

A: Mae Ffred yn mynd mas heb ei ymbarel

B: Cer(after him)

A: Dwi i'n mynd i eistedd yma

B: Eistedda i(beside you)

A: Mae Ffred yn eistedd fan 'na

B: Eistedda i(beside him)

A: Mae Sandra'n eistedd ar ei phen ei hun

B: Eistedda i (beside her)

A: Mae tîm Cymru yn chwarae ddydd Sadwrn

B: Pwy sy'n chwarae(against them)?

A: Dyw'r plant ddim yn hapus yn yr ardal hon

B: Fyddwch chi'n symud.....(for their sake)

A: Esgusodwch fi. Alla i (Interrupt you) ?

B: Dy'n ni wedi bennu, felly rydych chi ddim

A: Mae'r tŷ mewn lle hyfryd

B: Oes coed(around it)?

A: Dwi ddim yn gallu dod i gynrychioli'r grŵp.

B: Oes rhywun sy'n gallu dod ?(instead of you)

A: Ydy'r llwy goginio ar bwys y cwcer?

B: Nady. Mae hi'n hongian.....(above it)

A: Ydy'r defaid yn pori ar wahan i'r ceffylau

B: Nac ydyn. Mae nhw'n pori(amongst them)

A: Wyt ti wedi dweud wrth y ferch eich bod chi'n symud?

B: Nac ydw. Ond 'dyn ni'n symud..... (for her sake)

MERCHED

Y WAWR



Cangen San Cler

Er nad ydym wedi medru cyfarfod ers rhai misoedd mae cyfleoedd wedi bod i fwynhau gweithgareddau'r Mudiad ar y we.

Un o'r rhain oedd y Gwasanaeth Carolau a drefnwyd gan Swyddogion Rhanbarth Caerfyrddin ar Ragfyr 14eg. Cyflwynwyd y Gwasanaeth gan aelodau o Gangen Peniel a chafwyd, darlleniadau, gweddi ac unawd ynghyd â chyfle i ganu carolau. Braf oedd cael ymuno ag aelodau o'r Rhanbarth cyn y Nadolig.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth, Elfan Williams, gŵr Rhian, ym Mis Tachwedd. Cydymdeimlwn yn ddidwyl â Rhian a'r teulu.

Hefyd ar Ionawr 2il fe gollodd Annalyn ei thad, David Williams. Danfonwn ein cydymdeimlad ati hi hefyd.

Roedd Margaret Bowen yn dathlu ei phenblwydd yn 75 oed, a Iona ei phenblwydd yn 65 oed yn ystod Mis Ionawr. Danfonwn gyfarchion penblwydd at y ddwy.



COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig

Hendygwyn
01994 240254

www.llewelyndavies.co.uk

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES

Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319

Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont yma i'ch helpu

Mawrth 2020, dechrau'r cyfnod clo. Ionawr 2021, ni'n dal i fod dan glo er mwyn cadw ein hunain yn ddiogel rhag y Coronafeirws ac yn hollbwysig, gwarchod gweithwyr y GIG. Profiad dieithr, gwahanol a heriol i ni gyd sydd wedi arwain at addasu ein bywyd bob dydd.

Heb os, mae'r profiad arferol o fynychu'r clwb ffermwyr ifanc bob wythnos wedi newid yn llwyr, fel pob mudiad arall o ganlyniad i COVID-19. I ni, mae cyfarfodydd a nosweithiau'r clwb bellach wedi ei newid i fod ar zoom bob pythefnos. Hyd yn hyn, rydym wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn cefnogaeth yr aelodau i fynychu'r sesiynau zoom er mwyn parhau gyda'r elfen gymdeithasol. Rydym wedi mwynhau cwis neu ddau, gwrandao ar brofiad aelod yn Bali, creu addurniadau Nadolig a hyd yn oed coginio pwdinau bach siocled Nadolig, a hynny i gyd ar zoom o'n cartrefi, a heb fentro allan i'r oerfel, yng ngwir ysbryd y Nadolig! Er hynny, dwi'n sicr bod pawb yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r drefn arferol o gwrdd yng Nghanolfan Penybont, pan fydd y canllawiau yn caniatáu hynny.

Fodd bynnag, roedd mynd ati i feddwl yn greadigol a thu fas y bocs arferol fel petai, yn parhau er mwyn mynd ati i godi arian i'n elusen ddewisol am y flwyddyn 2020 - 2021 sef Mind Cymru. Yn sicr, elusen hollbwysig sy'n gwneud gwaith arbennig i helpu iechyd meddwl unigolion, sy'n allweddol ar hyn o bryd yn yr hinsawdd sydd ohoni. Ond yn anffodus, heb allu cynnal ein nosweithiau coffi, y daith dractor Nadoligaidd nac ychwaith mynd i ganu carolau o amgylch yr ardal, bu'n rhaid meddwl yn ddwys ar sut i fynd ati i godi arian, wrth ddilyn canllawiau COVID19.

Chwilio am hamper Nadolig? Ie, dyna beth oedd ein sialens Nadolig eleni. Creu a gwerthu hamperi Nadolig ar gyfer bobl yr ardal gyda'r elw at Mind Cymru. Heb os, bu'n rhaid trefnu'n ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r holl archebion. Gwerthwyd dros 60 o hamperi, rydym yn falch o ddweud, gyda phob hamper wedi'i ddosbarthu yn ddiogel erbyn 21ain o Ragfyr, cyn i reolau clo rhif 3 ddod i rym! Er gwaetha COVID19, mae'n amlwg nad oedd hynny

wedi effeithio ar gefnogaeth bawb eleni eto, ac yn wir, mae ein dyled yn sicr yn fawr i bob un sy'n parhau i'n cefnogi bob blwyddyn.

Tawel Nos, geiriau'r garol adnabyddus honno. Yr aelodau (a'r arweinyddion!) yn gweld eisiau'r canu carolau'n fawr ac yn enwedig y traddodiad o fynd i ganu carolau o amgylch yr ardal i sgwrsio, a chael clonc gyda phobl yr ardal. Felly, a oedd modd creu carol fach Nadolig rhithiol er mwyn ei rhyddhau ar ein gwefannau cymdeithasol? Mewn llai nag wythnos, ac yn sgil cwpwl o sesiynau ar zoom i greu carol rhithiol pum llais, roedd y perfformiad yn barod er mwyn dymuno Nadolig Llawen wrthym ni gyd o Glwb Ffermwyr Ifanc Penybont. Gobeithiwn fod pawb wedi mwynhau ein carol Nadoligaidd, ac os nad ydych chi wedi ei chlywed eto, mae dal modd gwneud hynny ar ein tudalen facebook - Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont. Ond, yn fwy na dim, rydym yn gobeithio bydd modd dychwelyd i'r gymuned a'r ardal yn ddiweddarach eleni mewn modd diogel, wedi i ni gongro COVID19, gyda'n gilydd.

Bydd ein sialens nesaf ni'n dechrau y mis hwn - sef 'Move for Mind' sy'n golygu byddwn yn mynd ati i wneud sialens sy'n para cyfnod o 30 diwrnod o naill ai wneud ymarfer corff yn eich cartref, cerdded, rhedeg neu seiclo. Bydd yr holl fanylion ar ein tudalen Facebook, gyda thudalen lle bydd modd ein noddi pe byddech yn dymuno. Does dim amheuaeth y bydd yn sialens a hanner, a fydd yn help i bob un ohonom ni yn ystod y cyfnod clo wrth ein cadw'n heini, helpu ein hiechyd meddwl ni a helpu iechyd meddwl eraill wrth gynorthwyo Mind.

Os ydych chi angen unrhyw gymorth, plis peidiwch ag oedi i gysylltu â Chlwb Ffermwyr Ifanc Penybont. Os oes angen rhywun i wneud eich siopa bwyd wythnosol, casglu presgripsiynau ar eich rhan neu wneud unrhyw wasanaeth angenrheidiol arall ar eich cyfer, cysylltwch â Fiona Phillips (07969 501610), Elin Phillips (07582 388919) neu Gwenllian Phillips (07772 747582) neu fel arall, ddanfonwch neges at gyfrif Facebook y clwb.

Arhoswch yn ddiogel a gobeithiwn eich gweld chi gyd yn y dyfodol agos.

Fiona Phillips
Cadeirydd,
Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygywn ar Daf



Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

PWLL TRAP

Penblwyddi

Mae sawl un o'r pentre yn dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau'r flwyddyn. Dymunwn benblwydd hapus i: Mary Williams, Llwynteg a oedd yn 96 oed ar Ionawr 3ydd.

Jonathan Williams, Cornel Ni oedd yn 60 oed ar Ionawr 7fed.

Geraint Jones, Garth Rhos a fydd yn 40 oed ar Ionawr 30ain.

Ashley Evans, Glenview a fydd yn 60 oed ar Chwefror 7fed.

Llongyfarchiadau i Lowri Jones, Llwyn y Bryn a Will ar eu dyweddïad. Hefyd i Nia o Wiston, a'i chariad, (wyres John a Megan Phillips) ar eu dyweddïad hwythau.

...hefyd i Liz Carroll, Dolwerdd, ar enedigaeth ei hwyres, Hallie, merch fach i Judi a Neil.

Bethlehem Newydd

Cynhaliwyd Oedfa Naw Llith a Charol ar Ragfyr 13eg. Cafwyd oedfa fendithiol iawn dan ofal y Gweinidog, y Parch Rhodri Glyn Thomas gyda nifer yn bresennol.

Y Gweinidog oedd yn gyfrifol am yr Oedfa Ddigidol ar wefan Undeb yr Annibynwyr ar Ragfyr 20fed. Pleser oedd gwrando ar ei neges glir a phwrpasol ar Bedwaredd Sul yr Adfent. Diolch iddo.

Casglwyd nwyddau a chyfraniadau ariannol tuag at y Banc Bwyd yng Nghaerfyrddin. Diolch i bawb a gyfranodd at yr achos teilwng hwn. Hefyd i bawb a brynodd gardiau Nadolig er budd Cymorth Cristnogol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Dewi Griffiths, Cartref Clyd, ar farwolaeth ei gyfnither Selina Gosnold o Lôn y Prior.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Evelyn Morgan, Glan y gors, ar Ionawr 6ed. Cofiwn am ei gŵr, Dwyfor, y plant Kevin a Kay a'r teulu, hefyd ei chwiorydd a'i teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth.

SAN CLER

Cydymdeimlo

Dros yr wythnosau diwethaf, yn anffodus, bu farw sawl un o drigolion San Cler.

Yn ddisymwth bu farw Elfan Williams, Heol Llaindelyn yn 68 oed ar Dachwedd 26ain. Roedd yn adnabyddus drwy'r ardal fel perchennog Cwmni Hufen-ia Cambrian. Cydymdeimlwn â'i briod, Rhian a'r plant Rhodri a Catherine a'u teuluoedd.

Ar Ragfyr 14eg bu farw Selina Gosnold, Lôn y Prior. Roedd hi yn berchennog ar siop trin gwallt Europa lle'r oedd yn gweithio gyda'i merch, Wendy. Cydymdeimlwn â'u phlant Wendy ac Adrian a'u teuluoedd.

Yn dilyn salwch hir bu farw Geoff Williams, Heol yr Orsaf. Roedd Geoff eto yn adnabyddus, wedi gweithio fel peintiwr ac addurniadwr yn San Cler am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i wraig, Wendy a'r plant Simon, Gayle a Kelly a'u teuluoedd.

Yn annisgwyl bu farw Margo Thomas, Lewis Terrace ar Ragfyr 20fed. Magwyd Margo yn Heol yr Orsaf gyda'i diweddar rhieni yn cadw tafarn yr Holly Bush. Wedi byw yn Llansteffan symudodd Margo nôl i San Cler ychydig flynyddoedd yn ôl. Cyn ymddeol roedd yn gweithio yn y swyddfeydd yng Nghanolfan Griffith Jones. Cydymdeimlwn â'i phlant Craig a Lyndsey a'u teuluoedd. Yng nghartref Dolyfelin, yn 93 oed bu farw Dilys Richards o'r Hendygywn. Cydymdeimlwn â'i merch Janette Jenkins a'i mab Gwynne a'u teuluoedd.

Collwyd hefyd Leighton John o Lôn y Prior, cydymdeimlwn â'i briod ac a'r merched Lorna, Sarah a Linda a'u teuluoedd.

Bu farw Ray Cartwright a oedd yn beintiwr ac addurniadwr yn yr ardal. Cydymdeimlwn â'i briod, Iona,

Penblwyddi. Mae sawl un wedi dathlu penblwydd arbennig. Dymunwn benblwydd hapus i:

Karl Farrier a oedd yn 40 oed ar Ragfyr 4ydd

Margaret Evans, Gerddi Manordaf, a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar Nos Calan

Dewi Griffiths, Cartref Clyd, a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Chwefror 16eg.

Braf yw croesawu i'r byd efeilliaid, Iori a Deina, a anwyd i Carys a Clifford o Meidrim ar Ragfyr 29ain brawd a chwaer i Leia. Llongyfarchiadau hefyd i dadcu a mamgu, sef Kevin a Janette Jenkins, Glantaf House, ac i'w hen famgu, Merle Jenkins, Maesybryn.

Diolch. Dymuna Lloyd, Ddôl Las, Rhiw'r Orsaf, San Cler ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ffonio, galw a holi amdano ac am y llu o gardiau a dymuniadau da yn ystod ei amser yn yr ysbyty ac wedi dod adref.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr

01994 230444 01994 230456



eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol*


T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

LLANGYNIN

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Margaret Harris, Gelli Aur sydd yn ysbyty Glangwili ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau am wellhad buan Margaret!

Mae'n dda deall bod Alun Lewis, Llwynbychan wedi gwella ar ôl treulio cyfnod yn ysbyty Treforys ar ddechrau mis Rhagfyr.

Cydymdeimlad

Mae nifer o deuluoedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Don a Susan Phillips, Gorwelion ac â Granville a Mary Davies, Angorfa ar farwolaeth cyfnither Don a Granville, sef Evelyn Fussell o Glunderwen.

.....hefyd ag Elfed ac Eifiona Lewis, 3 Llyscoed, ac â John Lewis, Maes Mebyd, a'u teuluoedd i gyd ar golli cyfnither iddynt yn ddiweddar, sef Menna Elias (Menna Morris, Brynamlwg gynt)...

..... ac â Margaret Rees, Gwynfa ac Arwyn Howells, Brohedydd, ar farwolaeth ddisymwth eu brawd yng-nghyfraith Elfan Williams, sef gŵr Rhian (Blaenycod gynt) o Heol Llaindelyn, Sanclêr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i William Lewis ac Ellie o Gaerfyrddin ar enedigaeth eu merch fach, Olivia May. Mae Olivia yn wyres i Paul a Wendy, Min-yr-Awel, ac yn or-wyres i John Lewis, Maes Mebyd.

Diolch

Hoffai Mary Davies, Angorfa, ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd arbennig yn 90 oed. Diolch o galon i bob un am eu caredigrwydd.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth. Fel y mwyafrif o gapeli, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal gwasanaethau oherwydd y sefyllfa ynglyn â'r Coronafeirws ond diolch ein bod yn cael gweld a gwrando ar wahanol raglenni crefyddol ar y radio a'r teledu; hefyd recordio gwasanaethau gan bregethwyr a phobl lleol.

Oherwydd afiechyd, mae Rhoswen Llewellyn wedi ymddeol fel Ysgrifenyddes Ramoth ar ôl 17 o flynyddoedd. Bu Rhoswen yn weithgar iawn ymhob

agwedd o fywyd y Capel ac yn athrawes Ysgol Sul oddiar oedd yn 16 oed! Dymunwn yn dda iddi ar ei phenblwydd yn 81 oed ar Chwefror 26ain.

Cydymdeimlwn â Brian John, Rose Cottage ar farwolaeth ei frawd yng-nghyfraith (gŵr Nellie) oedd yn byw yng Nghaerfyrddin.

BLAENWAUN

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Irfon Phillips, Gorlan ar farwolaeth ei fam Mrs Nance Phillips, Pantgwyn Bach, Llanfyrnach. Rydym yn meddwl am Irfon, Ann, Llŷr, Ceris a'r teulu estynedig.

Eglwys Moriah Blaenwaun

Ar y trydydd Sul o'r Adfent, 13eg Rhagfyr hyfryd oedd cael oedfa foreol Nadolig o dan ofal ein Gweinidog y Parchedig Gareth Ioan. Pwysleisiodd gwir ystyr y Nadolig a llwyddodd i greu awyrgylch fendithiol i ni drwy ein bod yn gwrando ar ei fyfyrddod ac ar nifer a garolau a chwaraewyd ar beiriant CD. Diolch iddo. Dymunodd fendith yr Ŵyl a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Penderfynwyd ar ddiwedd yr oedfa mae gwell byddai gohirio oedfaon dechrau'r flwyddyn nes bod y rheoliadau yn llacio. Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel ac edrychwch ar ôl eich gilydd.

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod sef Catherine Griffiths, gynt o Heol Shôn ar Ragfyr 3ydd yn 91 mlwydd oed. Roedd yn gymeriad hoffus a'i gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Iau, Rhagfyr 17eg yng Nghapel Moriah a'r gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog Parchedig Gareth Ioan. Cydymdeimlwn â'r meibion Hefin, Dyfrig, Wyn a Geraint, eu teuluoedd a'r teulu estynedig.

Cydymdeimlwn hefyd â Elonwy Morgan, Cadwyn Aur a'r teulu a gollodd ei thad yn ddiweddar. Rydym fel Eglwys yn meddwl amdanynt.

CWMBACH

Dymuniadau gorau i Ann Davies, Fron Uchaf sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili.

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



**Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

LLANWINIO

Pwyllgor Adloniant Llanwinio



Dyma lun a dynnwyd yn y Noson Garolau yn Eglwys Llanwinio yn Rhagfyr 2019 pan gasglwyd £350 tuag at Nyrsys McMillan. Y bwriad oedd cyflwyno'r arian yn y Gwanwyn ond yn anffodus oherwydd cyfyngiadau'r Corona feirws, bu rhaid gohirio. Erbyn hyn mae Tegwen James, Trysorydd y Pwyllgor wedi trosglwyddo'r arian i'r elusen. Diolch i bawb a gyfranodd.

CYNGOR CYMUNED LLANWINIO

Yn Eisiau - Clerc i Gyngor Cymuned Llanwinio

Mae Cyngor Cymuned Llanwinio yn edrych am Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol. Mae'n swydd barhaol am 12 awr y mis, gyda thaliad yn unol â'r cynghorau lleol (NJC) ar raddfa o £9.25 - £10.21 yr awr yn ôl profiad a chymhwysterau. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn fynychu cyfarfodydd gyda'r nos bob yn ail fis yn Llanwinio. Swydd i ddechrau 1af Ebrill 2021.

Swyddogaeth y clerc fydd goruchwyllo gwaith y Cyngor a chynnig cefnogaeth. Mi fydd y person benodir hefyd yn Swyddog Cyllid Cyfrifol i'r Cyngor. Mae gofyn i'r ymgeisydd fod yn medru ar sgiliau cyfrifiadur, sgiliau ysgrifenedig a rhifeg. Mae profiad yn fanteisiol ond mi fydd hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu cynnig. Mae'r Gymraeg yn hanfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Clerc presennol, Kevin Bowen ar 01267 230413 neu drwy ebost: clerk@llanwiniocommunitycouncil.com.

CYNGOR CYMUNED LLANWINIO

9.25 erw o Dir Pori i'w rhentu
Am fanylion pellach cysylltwch â'r Clerc
Kevin Bowen
01267 230413
clerk@llanwiniocommunitycouncil.com

HENLLANFALLTEG

Cydymdeimlwn â Ceri, Claire a'r teulu, Glanyrafon ar farwolaeth tad Ceri.

..... hefyd â Carolyn, Nanthwyaid ar farwolaeth ei gŵr John yn ddiweddar.

Dymunwn pob lwc i Steve Goymer, Plash sy'n rhedeg mis yma i godi arian i Ganser y Prostad.

BANCYFELIN

Capel Bancyfelin



Pleser gennym yng Nghapel Bancyfelin oedd cyflwyno siec (o'r diwedd!) o £1,810 i Bwyllgor Apêl San Clêr, Bancyfelin, Pwll-Trap a Llangynin, Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr yn dilyn y Gymanfa Ganu Fodern a gynhaliwyd yn y capel ar Fawrth 1af.

Dyma Iola Wyn, Cadeirydd y pwyllgor apêl yn derbyn siec oddi wrth Carwen Howells a Beti Wyn James, Trysorydd a Gweinidog Capel Bancyfelin.

Gibeon

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig ym Methlehem Newydd ar Ragfyr 13eg o dan ofal y Gweinidog gyda chynulleidfda dda yn bresennol. Diolch i'r Gweinidog hefyd, am ei negeseuon cyson, pwrpasol drwy e.bost neu lythyr dros y misoedd diwethaf. Braff hefyd, oedd gwrando ar ei neges ar Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr ar Ragfyr 20fed.

Trosglwyddwyd cyfraniad teilwng iawn o'r Ofalaeth tuag at y Banc Bwyd, yn nwyddau a chyfraniadau ariannol. Diolch i Annalyn a Iona am drefnu.

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth ein aelod hynaf, David Williams, ar Ionawr 2ail yn 101 oed. Bu

farw'n dawel yn ei gartref lle derbyniodd ofal tyner gan Annalyn a'r teulu. Roedd Mr Williams wedi byw bywyd llawn a diddorol ac yn ei flynyddoedd olaf roedd yn hynod o browd o dderbyn medal Legion d'Honneur am ei waith gyda'r British Expeditionary Force yn cefnogi Ffrainc yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd hefyd, yn falch i gael son am ei brofiadau ar raglenni S4C. Cydymdeimlwn âg Annalyn a Mared a'r teulu yn eu galar ar yr adeg anodd hon.

Llongyfarchiadau i Billy ac Olive Davies, Bronygaer a oedd yn dathlu eu Priodas Aur ar Ionawr 5ed.

LOGIN

Calfaria

Blwyddyn Newydd Well

Dymunwn Blwyddyn Newydd Dda a gwell i bawb. Er bod Covid19 yn dal i fod yn achos pryder i ni gyd, mae goleuni i'w weld ochor draw i'r twnel erbyn hyn, wrth i'r broses brechu fynd yn ei flaen. Gweddiwn bydd bywyd yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd yn ystod y flwyddyn, ond amser a ddengys o ran hynny. Cadwch yn iach ac yn ddiogel yn y cyfamser.

Myfyrdodau

Diolch o galon i'r canlynol am baratoi myfyrdodau diddorol a bendithiol ar ein cyfer yn ystod yr wythnosau diwethaf :- Mr Arwel Evans, Parchedig Judith Morris a'r Parchedig Euros Jones Evans. Methodd Mr Emyr Phillips baratoi myfyrdod oherwydd salwch, rydym yn dymuno gwellhad buan iddo.

Dyma ddyddiadau myfyrdodau Chwefror a Mawrth, cofiwch ymweld a thudalen facebook Capel Calfaria Login :-

Chwefror 7fed - Hedd Ladd Lewis
21ain - Euros Rhys Evans
Mawrth 7fed - Alun Lenny
21ain - Gareth Ioan

Oedfa Nadolig

Cynhaliwyd ein hoedfa Nadolig yn rhithiol am y tro cyntaf erioed. Gofynwyd i rai o'r aelodau i recordio fideo o'u hunen a derbyniwyd amrywiaeth o ddarluniadau, gweddiau, barddoniaeth ac eitemau cerddorol. Diolch o galon i Faith, Nigel, Beti, Sian, Ceirios, Glesni, Jill, Iris ac Eurfyl am gymryd rhan ac i Tomos am ei waith yn golygu'r fideo. Mae'n anodd credu ond

mae dros 3600 o bobol wedi gwyllo'r fideo sy'n cadarnhau bod sefydlu tudalen facebook i'r capel wedi profi'n llwyddiant ysgubol.

Cydymdeimad

Cydymdeimlwn gyda Arwel ac Ann Jones, Clos Bach ar farwolaeth eu brawd yng nghyfraith sef Elfan Williams o San Cler.

Penblwydd

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i ddau o'n haelodau sydd newydd dathlu rhai arbennig yn ddiweddar - Paul Owen yn 50 oed a Glesni Vaughan yn 60 oed.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Russell Thomas, Min y Ddol sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

Canolfan Ffynnonwen

Llongyfarchiadau i Siân Jones, Penclippin a ddathlodd ei phenblwydd yn un ar hugain oed ar Ionawr 6ed, 2021. Pob dymuniad da i ti wrth aelodau Canolfan Ffynnonwen a phob lwc yn y Brifysgol.

Croeso i'r ardal i John a Mary Hursey sydd wedi symud i Llŷs y Coed. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn y Ganolfan pan y bydd yn ddiogel i wneud hynny.

Cylch Meithrin Ffynnonwen



Y plant yn mwynhau cinio Nadolig yn y Cylch. Pawb wedi cael sbort a sbri yn gwneud llawer o weithgareddau i dathlu'r Nadolig.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPYS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŪR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÂN HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED



FFÔN:-
01994 240857





Pob lwc i Letti Evans a Jack Phillips sy'n symud i Ysgol Beca a Jared Anthony a Deri Anthony bydd yn dechrau yn Ysgol Bro Brynach. Wedi mwynhau eich cwmni yn fawr.

EFAILWEN

Llongyfarchiadau i Gwyndaf Lewis, Bro Beca ar ennill Gwobr Dewrder S4C am godi oddeutu £40,000 i Ysbyty Glangwili er cof am ei fam Undeg.

Ennill Cracyr 'Dolig



Llongyfarchiadau gwresog i Rhiannon Davies, Pencerrig ar ennill teledu hyfryd fel gwobr yng nghystadleuaeth Cracyr 'Dolig, Heno. Braff gweld rhywun o Efailwen yn ennill.

Gwelsom Sion Corn yn pasio drwy'r pentre tua wythnos cyn y Nadolig, ar noson stormus, wlyb. Roedd trigolion y pentre wrth eu bodd, yn enwedig y plantos, yn ei weld gyda bws arbennig Midway wedi'w oleuo a'i addurno'n hyfryd yn ei hebrwng. Diolch i Gwmni bysiau Midway am drefnu.



Bws Midway yn hebrwng Sion Corn



Daeth cymdogion Efailwen at eu gilydd i godi arian tuag at gael coeden Nadolig i'r pentre. Diolch i Ysgol Beca am gyfrannu tuag ati hefyd, a'i gosod ar fuarth yr ysgol.

Diolch

Dymuna Emyr Thomas, Delmyr, Boncath ddiolch yn fawr i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a chwsmeriaid am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion â dderbyniodd o ganlyniad i'w ddamwain dechre mis Tachwedd. Diolch hefyd i staff Ward Teifi, Ysbyty Glangwili am eu gofal arbennig. Diolch i bawb.

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



HENDYGWYN AR DAF

Wrth i'r erthygl yma gael ei hysgrifennu yn nyddiau cyntaf 2021 mae'r sefyllfa gyda Covid 19 yn parhau yn arswydus o beryglus yn yr ardaloedd yma. Ond mae yna obaith a hynny oherwydd y brechiad, a gobeithiwn y bydd cymaint â phosibl yn cael y brechiad yn y misoedd nesaf.

Oherwydd y Covid, addoli trwy 'zoom' yr ydym wedi bod yn gwneud yn y Tabernacl dros y Nadolig.

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuencid trwy 'zoom' ar y Sul olaf cyn yr Ŵyl ac roedd Siôn Corn wedi gallu dosbarthu'r anrhegion o flaen llaw. Ar ddiwedd yr oedfa fe wnaeth y plant i gyd agor yr anrhegion gyda'u gilydd. Bob blwyddyn ar noswyl Nadolig mae 'Gwylnos' yn cael ei gynnal yn y Tabernacl. Cynhaliwyd 'Gwylnos' hefyd trwy 'zoom' eleni a braf oedd gweld 10 o oedolion ifanc y capel yn cymryd rhan.



Oedfa Nadolig y plant a'r ieuencid trwy 'zoom'



Gwylnos trwy 'zoom'

Roeddem wedi gobeithio cynnal oedfaon ddechrau Ionawr yn y capel ond oherwydd y sefyllfa bresennol penderfynwyd symud yr oedfaon ar-lein ac ar Sul cyntaf Ionawr cynhaliwyd ein hoedfa gyntaf trwy 'zoom'. Os oes rhywun eisiau ymuno gyda ni ar gyfer ein hoedfaon trwy 'zoom', neu ar gyfer y grŵp trafod, yr ysgol Sul, neu'r cwis misol (y cyfan trwy 'zoom' ar hyn o bryd) cysylltwch gyda Guto ar 01269 8651 655. Bydd croeso cynnes i chi.

Fe wnawn orffen ar nodyn hapus ynghanol y cyfnod diflas yma. Mae nifer o'n haelodau wedi croesawu aelod newydd i'r teulu yn ddiweddar.

Ar ddiwedd mis Hydref ganwyd Matilda Tooze, merch i Holly a Chris a chwaer fach i Poppy.

Yna wythnos yn ddiweddarach ar ddechrau Tachwedd ganwyd Magi John, merch i Edward a Ceirios a chwaer fach i Gruff.

Ac yna dau ddiwrnod cyn y flwyddyn newydd ganwyd Mabon Llŷr Evans, mab i Iwan a Sarah.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri teulu oddi wrth pawb yn y Tabernacl.



Poppy a Matilda Tooze



Magi gyda'i rhieni Edward a Ceirios John a'i brawd mawr Gruff



Mabon Llŷr Evans gyda'i rieni Iwan a Sarah

Llongyfarchiadau i Mel a June Jenkins ar ddod yn hen ddatcu a mamgu am y tro cyntaf i Caio Siôn Jenkins a anwyd ar Dachwedd 27ain.

.....hefyd i Tony Hughes, Maes y Ffynnon a fu'n dathlu penblwydd arbennig yn 80 oed ar Ragfyr 23ain. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cydymdeimlwn ag Ithel a Jean Parri Roberts ar farwolaeth chwaer Ithel sef Gwen Morgan o Dreletert rai dyddiau cyn y Nadolig.

hefyd â theuluoedd Mrs Doris Rogers; Mrs Dilys Richards a Mr Frank Leggatt yn eu colled a'u hiraeth.

RHYDWILYM

Ar yr 11eg o Ragfyr cynhaliwyd angladd Dilwyn James o Langyndeyrn yn y fynwent. Brodor o Gwm Gwaun oedd Dilwyn, ac roedd yn briod gyda Myfanwy, gynt o Glyn Llewelyn, Llanycefn.

Cydymdeimlwn gyda Myfanwy, y plant, a'r teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar. Gwasanaethwyd yn yr angladd ar lan y bedd gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis.

Falch i glywed bod Katrina a John Jenkins wedi croesawu wyres fach newydd, sef Betsi Lois i'w plith.

Llongyfarchiadau i Geraint a Ffion wrth iddynt groesawu Betsi i'w haelwyd. Bydd Mamgu siwr o sbwylio yr un fach mas draw.

Oblegid yr amgylchiadau anodd yr ydym yn byw ynddynt, nid yw yn bosib cynnal gwasanaethau am y tro. Felly, dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb, gan obeithio medru cwrdd eto nes ymlaen yn 2021.

LLANDYSILIO

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Ann Bowen Tŷ Capel Pisga a'r teulu ar farwolaeth ei chefnider trwy ddamwain ym mis Tachwedd sef Huw Howells (gynt o Mil Inn Bethesda)hefyd â Geoff Davies Gilrhyd ar fawrolaeth ei frawd Russell Davies a fu farw ar 12fed o Dachwedd.

.....hefyd â Aelwen (March Gwyn gynt) ac Anthony, Arosfa, ar ôl colli ei thad sef Hywel Thomas o San Cler.

.....hefyd â Ann Thomas, Heddwyn, ar ôl colli ei chwaer, Evelyn Fussell. Hefyd gyda Richard, Tina a Jack, Modurlys ar golli mam a mamgu sef Evelyn Fussell. Hefyd Cheryl a Neil ar colli modryb.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Danielle Bournier a David James ar enedigaeth mab bach ar 15fed o Dachwedd sef Freddie Christopher Bournier-James, ŵyr i Mandy James a gorwyr i Lorna a John.

....hefyd i Rhys Jenkins a Nia Lloyd ar enedigaeth mab, sef Caio Sion Jenkins - ŵyr i Paul a Carolyn Jenkins a gorwyr i Marlene Phillips.

Penblwyddi

Penblwydd hapus i Donna Llewellyn ar ddathlu Penblwydd arbennig yn 50 oed ar 22ain o Ragfyr.

...hefyd i Andrew Dougmore a ddathlodd ei benblwydd yn 60 oed ym mis Tachwedd.

...hefyd i Mrs Shan Clarke Pennaeth Ysgol Brynconin a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar 3ydd o Ionawr.

Neuadd y Pentref

Mae Diffibriliwr tu allan i'r Neuadd. Nodwch mae'n rhaid ffonio 999 er mwyn cael y rhif i'w agor.

Mae Pwyllgor y Neuadd yn cwrdd unwaith y mis, ar yr ail nos Lun yn y mis am 7.30yh (ar Zoom ar hyn o bryd). Mae croeso cynnes i unrhyw un o'r pentref ymuno â ni. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â Delyth Roblin neu unrhyw aelod arall. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 11eg o Ionawr.

Cylch Meithrin Llandysilio

Cododd y plant £305 wrth gasglu arian drwy wneud ras beic/tractor nodedig. Diolch yn fawr iawn iddynt.

Cafodd y plant ginio Nadolig ar Ragfyr 11eg. Gwnaethpwyd fideo i'r rhieni o'r ddrama Nadolig.

Pob lwc i Aurora, Ethan, Osian a Pippa wrth ddechrau yn Ysgol Brynconin ym mis Ionawr.

Lleolir y Cylch yn Neuadd Llandysilio, bob bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener o 9.00 yb tan canol dydd. Addysg Gymraeg i blant cyn ysgol o 2 - 4 oed. Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cofiwch aros adref er mwyn cadw'n iach a saff. Gobeithio cawn gwrdd lan eto eleni. BLWYDDYN NEWYDD DDA.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...
01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

Paentiwr ac
Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 **Monraker** 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
 **Tir y Bont** 
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Caio Siôn Jenkins (27/11/2020)

Naw mis dy ddisgwyl,
naw mis dy berffeithio'n fwndel bach
ym mol y mudandod mawr.

Wrth i ddyddiau droi'n dymhorau,
derbyniais y diweddaraf amdanat
a chlywais dy fod di'n tyfu –
yn dyrnu dy ddrwm,
yn cicio'r cadwyni,
yn datgan dy ddyfod
cyn distewi.

Fe'th welais mewn llun heb liw –
yn ben,
yn goes,
ac yna'n fraich –
y wyrth wen yn y gwacter du.
A thrwy niwl y sgan,
mewn fflach o ynni,
roedd egin dy ddychmygu.

Er gwaethaf holl dwrw'r tu fas,
dy guriadau cyson di oedd yn rheoli –
fel bît rhyw ddawns ddirgel
yr ochr arall i ffin y ffurfio,
a'r ddawns honno'n ddawns newydd i ddysgu.

Yna daethost.
Deffroaist yn gyffro i gyd,
wedi dy urddo â choron o wallt,
a'th ru'n rhybuddio'r byd dy fod di
yn ein plith.
Agoraist dy lygaidd,
a thrwy gariad,
daeth dau yn dri
a phâr yn deulu.

Er na wyddet ddim am drybini eleni,
rhoddaist reswm i ni wenu mewn blwyddyn oedd
yn mynnu gwgu,
lle roedd gofid ym mhob gafael
a phryder ym mhob ffoi.
Yn grwtyn ein gobaith,

gwnest ein beichiau'n ysgafnach
a'n dagrau'n felysach.

Yng ngwanwyn dy fywyd,
cymer gam i'r haul,
teimla'r gwres ar dy groen –
mae gennyf weoedd i'w gweu,
lloerau i'w troelli,
moroedd i'w hwylio,
llwybrau i'w llywio.
A gyda ninnau,
dy deulu,
yn gefn
ac yn gysur mor gynnes â'r garthen o'th gwmpas,
daw dy gyfle i 'sgrifennu dy bennod di dy hun i'r
stori –
i'r hanes sy'n ein huno ni.

Ond, am nawr,
i'm nai, estynnaf fy llaw –
croeso i'r byd, fab fy mrawd.

G.S.J. (Wncwl Siôn)

LLANGLYDWEN

Bu farw Novella Davies, Glas y Dorlan ddiwedd mis
Tachwedd a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll.
Bu Novella yn rhedeg Tafarn y Bont am flynyddoedd
maith cyn symud i fyw at ei merch Margaret a Wyn yng
Nglas y Dorlan, ac yna ymgartrefi wedyn yng Nghartref
Ridgeway. Roedd gan bawb feddwl mawr ac atgofion da
ohoni.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys hefyd â Bryan
Phillips, Fforest ar farwolaeth ei chwaer Janice Williams
yn ddiweddar. Roedd Janice yn byw yn Hermon ac
estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i'r teulu yno.

Mae'n gyfnod clo unwaith eto a phawb yn cadw at
reolau'r Llywodraeth er mwyn cadw'n ddiogel ac yn
iach. Fel yn sawl pentref arall mae'n siwr, mae'n syndod
faint sydd bellach yn mynd allan i gerdded yn ddyddiol,
a braf yw gallu cwrdd â thrigolion y pentref a chyfarfod
rhai newydd ar hyd hewlydd Llanglydwen tra'n cadw'n
heini - a chadw pellter!

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd

Triniaeth o safon mewn
awryglych gartrefol gan Nia

Safle siop trin gwallt Chris, Crymch

Salon
Harddwch
a
Chyflenwol

Ffôn:
01239 831479

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

TRELECH

Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan obeithio am well blwyddyn eleni.

Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau y diweddar Mr David Thomas, Lluest a fu farw yn ddiweddar. Cofiw'n arbennig am Linette ei weddw. Bu'r ddau am flynyddoedd yn dosbarthu parseli a oedd wedi eu harchebu ar lein o amgylch yr ardal a thu hwnt.

Gwellhad buan i Mrs Mair Jones, Pant y Berth sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

....hefyd i Mrs Bronwen James, Caerwenog sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

GELLYWEN

Ainon

Blin iawn clywed fod Ray Thomas gynt o Cru- gydeirne wedi marw ar Ionawr 10fed. Bu'n aelod blaenllaw gyda ni yn Ainon dros y blynyddoedd ac o hyd yn barod i gymeryd rhan mewn unrhyw weithgareddau fyddde ar y gweill gyda ni. Bu'n ffaeledig ers llawer blwyddyn bellach ac oedd wedi cartrefi mewn cartref henoed er mwyn cael y gofal oedd angen arni. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda gweddill y teulu.

LLANBOIDY

Dymuniadau gorau i Ken Kendall, Crud yr Awel a fu'n dathlu ei benblwydd yn 90 oed ddiwedd Rhagfyr.

Gwellhad buan i Liz Rees, Erw Lon ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Priodas

Llongyfarchiadau i Mathew Rogers, Tŷ Gwyn a Saman- tha ar eu priodas ar Ragfyr 8fed. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

CLUNDERWEN

Llongyfarchiadau i Julia a Nathan Evans, Heol-y-Gaer ar enedigaeth mab, Hughie Jac, a anwyd 25ain o Dachwedd, brawd newydd i Danny ag Ollie a chefnider bach arall i Gwena a Cadi. Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd xx

NEWYDDION BLAENCONIN

LLONGYFARCHIADAU i Rhys Jenkins a Nia Lloyd ar enedigaeth mab – Caio Siôn. Mae gobaith i Dîm Pêl- droed Llanboidy ! Danfonwn ein cyfarchion i'r unigolion hynny sydd, bellach, wedi troi'n Neiniau a Theidiau !!!

CYMDEITHAS CAPELI BRO HYWEL DDA

Hyfryd oedd cael bod yn rhan o arlwy'r Gymdeithas ar gyfer y Nadolig. Braf oedd gweld aelodau'r Gymdeithas yn cyflwyno hanes y Geni ar ffurf fideo. Diolch ai bawb am eu cyfraniadau.

AUR a THUS a MYRR

Fel y Doethion gynt, bu'r Eglwys yn brysur iawn yn ystod yr Ŵyl yn cyflwyno 'anrhegion'. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

BEIRDD BLAENCONIN

'Bore Nadolig'

Mae'n fore Nadolig ...

a'r plant yn y gwely,

A hithau ? Lan llofft –

i chi'n clywed hi'n chwynnu ?

Fel arfer, am chwech,

byddai'r Blygain 'di dechre,

Oherwydd y Cofid - mae'n rhaid aros adre.

A dyma'r traddodiad – cyn mynd lan i'r Festri,

Yw agor y ddol sy'n cyfleu Stori'r Geni.

Brenhinoedd – Y Doethion fu'n dilyn y seren ...

A Herod, sy'n llawn o gasineb a chynnen ...

Ac Iesu – y Brenin ym mhishwael y beudy,

Yn Geidwad mewn crud

daeth o'r nef i'n gwaredu.

Bugeiliaid – y gweithwyr –

a thlodion cymdeithas,

Yn brwydro bob nos

gyda'r praid ger y Ddinas.

A hwythau'n cael abwth o ganol tywyllwch,

A'r engyl yn canu gan chwalu'r tawelwch.

A Mair – wele'r Forwyn yn tloidi y stabal,

A Joseff, ei gŵr, yn o'n cynnig pob gofal ;

A hithau'n gweld popeth a'i gadw'n ddiogel -

Ymwelwyr, anrhegion –

gwneud popeth yn dawel.

Colin J. Harries

Cigydd o Safon



Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd

London House,

Hendygywyn-ar-Dâf 01994 240705

Galwch i mewn am y dewis gorau

GERALD BLAIN
CYMDEITHIEN CYF
The Glynwern Cymdeithas
Management

15 Stryd St Iwan, Hendygywyn,
Sŵn Gaerfyrddin, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529

Symudol: 07971 558514

Ar Angel – negesydd o orsedd y Duwdod,
Yn rhannu'r newyddion –
yn gwylio a gwarchod.
Cyhoeddi y neges i Mair a'r Bugeiliaid,
Ac annog'r hen Joseff i agor ei lygaid.

Yr asyn ... iê'r asyn ... nid yw'n rhan o'r stori,
Ond rhan o draddodiad yr Wyl erbyn heddi.

A chamau yr asyn yw alaw yr awen
Wrth deithio ymlaen tua'r de yn yr heulwen.

Ac yna, yng nghrombil y ddol, wele Iesu,
Y Baban, y Brenin ddaeth lawr i deyrnasu.
Efe sydd yng nghanol yr Wyl –
fe yw 'testun'

A thema pob Carol, a channwyll a Chymun.

Gwnewch le Iddo heddi – y cyntaf-anedig –
Y Gŵr aeth i'r groes – sydd yn Atgyfodedig.
Mae'n gofyn am le yn ein dathlu blynyddol,
Rhoi Iesu yng nghanol ein miri arferol.

Mae'r ddol heddiw'n adrodd
hen stori anfarwol

Y Brenin – y Bugail a'r cariad tragwyddol.
Mae'n fore Nadolig - yng nghanol y gaeaf
Rhown foliant i Dduw –
canwn glod i'r goruchaf!

Paid â phoeni - Aled Eynon

"Mae'n amser rhyfedd yn dyw hi?" Dyna mae pawb yn ei ddweud dyddiau hyn, a rhaid cytuno, mae hi'n amser rhyfedd iawn. Does dim byd ymlaen nac un man i fynd, ac rydym gartref mwy nag erioed, a dyma gyfle gwych i wneud llawer o'r pethau yna chi wastad yn dweud amdany'n nhw "O ie ma ishe neud na, ond fe naf i e rywbyrd to pan fydd amser." Fodd bynnag, am ryw reswm neu'i gilydd does dim awydd neu 'motivation' i wneud fawr o ddim ambell waith. Roeddwn i'n gorwedd ar y gwely ryw brynhawn gwlyb wythnos neu ddwy nôl yn gwylio ryw rygbi diflas ar y teledu, pan estynnais am lyfr 'Blodeugerdd o Farddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif' o'r silff. Fe ddes ar draws cerdd a wnaeth gryn argraff arnaf, nad oeddwn wedi ei darllen o'r blaen, sef 'Gwarineb' gan R. Bryn Williams. Sôn mae'r bardd pa mor fyr a bregus y mae bywyd a pha mor ofer yw

poeni am ryw fân bethau, nad ydynt mor bwysig â hynny mewn gwirionedd ar ôl cymryd eiliad i feddwl.

"Ninnau'n ymboeni'n ofer ar y daith
I grafu cyfoeth a chrafangu clod,
Heb gofio fyrred yw ein diwrnod gwaith
Ac nad oes sicrwydd ond yn nhrefn y rhod."

Wrth gwrs, ni allwn help beth rydym yn poeni amdano yn anffodus, a dyw'r hyn sy'n poeni'r naill berson ddim yn poeni'r llall o gwbl. Pawb â'i ofid fel maen nhw'n dweud. Gellid dadlau bod pethau pwysicaf bywyd, megis iechyd a hapusrwydd (pethau y mae'n werth poeni amdany'n nhw), yn bethau nad oes gennym reolaeth drostynt yn aml iawn. Byddai rhai'n dweud felly nad oes pwynt poeni am bethau sydd y tu hwnt i'r rheolaeth ni, ond haws dweud na gwneud, gan mai'r pethau hynny rydym yn eu trysori fwyaf wrth gwrs. Wedi dweud hynny, efallai fod y misoedd diwethaf wedi ein dysgu nad oes yn rhaid poeni am y peth lleiaf, ac nad yw'n ddiweddd y byd fel arfer os nad ydym yn llwyddo i wneud rhywbeth yn y ffordd ac ar yr adeg roeddem wedi bwriadu. Mae'r bardd yn mynd ymlaen:

"Mynaf gan hynny amsugno fy mwynhad
O leisiau'r cread ac o liwiau'r byd
Heb ofer chwennych rhyw amgennach stad."
Braf fyddai meddwl ein bod wedi dysgu i werthfawrogi'r pethau bach mewn bywyd yn y cyfnod diweddar trafferthus hwn, a byw o ddydd i ddydd gan fwynhau rhyfeddodau natur; rhyfeddodau yr ydym ni yng ngorllewin Cymru mor ffodus i fod yn byw yn eu mysg. Mae'r ddwy linell olaf yn rhai hynod berthnasol i'r byd rydym yn byw ynddo ar hyn o bryd, o gofio na allwn weld ein teuluoedd a'n ffrindiau:

"Profi o serch a chwmni'r sawl a'm câr,
Rhwnge geni a marw. Hyn yw'r bywyd gwâr."

Ond rhaid ystyried y geiriau hyn mewn goleuni gobeithiol, gan gredu y bydd pethau wedi gwella erbyn y gwanwyn ac y bydd y feirws wedi dechrau cilio, a hynny am byth y tro hwn.

Mae Aled yn ysgrifennu'n achlysurol i'r dudalen Gymraeg yn y Carmarthen Journal. Diolch iddo am ganiatau i ni gynnwys ambell erthygl er mwyn i ddarllenwyr Y Cardi Bach gael eu mwynhau hefyd.

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

Allen and Partners
Milfeddygon

ALLEN & PARTNERS
Veterinary Services Ltd

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'n Cwsmeriaid Oll!

Hendygywyn: 01994 240 318

Cornel Garddio *gan John Davies*

Rwy'n ysgrifennu hwn ar y seithfed o Ionawr, diwrnod heulog ond yn oer. Does dim llawer o awydd i fynd allan ond mae pridd yr ardd yn sychu yn naturiol nawr ar ôl Rhagfyr gwlyb iawn. Os oes gennych dato hâd yn barod i'w plannu nes ymlaen, gwnewch yn siwr i'w cadw yn gynnes - dyw taten wedi hanner sythu braidd werth ei phlannu i gymharu â thaten wedi cael gofal iawn.

'Rwyf yn golygu gwneud tamed o waith ar y lawnt os dal y tywydd i sychu. Mae yna dipyn o fwswm wedi datblygu yn ddiweddar, felly os caf dywydd ffafriol, crafad galed â rhaca, a hynny dwy neu dair gwaith sydd o flaen y lawnt nawr yn reit sydyn. Bydd y mwswm yn cael eu lenwi mewn i hen fagiau plastig a llawer o dyllau ynddynt ac ar ôl blwyddyn neu ddwy bydd hwn wedi pydru lawr yn bridd reit ddefnyddiol. Heb os nac onibai, mae pridd y lawnt wedi suro, felly fe fydd yn cael dwy ddwrned dda o galch i bob llathed sgwar ac mae Ionawr yn amser delfrydol i wneud y gwaith hyn.

Sylwaf yn y papurau garddio misol fod llawer o bobl yn cwyno ar ôl cael colledion wedi defnyddio y Composts modern di-bridd sydd yn boblogaidd erbyn hyn. Mae rhain mwy neu lai yn gyfangwbl wedi cael ei gwneud allan o wastraff gerddi mae pobl yn taflu i'r canolfannau ail-gylchu sydd gan bob Cyngor. Erbyn heddiw mae hyn yn ddiwydiant anferth ac ofnaf oherwydd fod y cynnwys yn cael ei drin â gwres â'i gymysgu ar raddfa enfawr, mae bron yn amhosib, o hyd, i gael cynnwys pob cwydyn gydag ansawdd cyson. Felly fy nghyngor i yw, os yn prynu un cwydyn, agorwch ef a'i arllwys allan i ferfa neu ar y llawr a'i ail gymysgu yn drylwyr cyn eu lenwi nôl drachefn i'r cwydyn. Os yn prynu pump cwydyn, cymysgwch y pump gyda'u gilydd a bydd hyn yn sicrhau fod y cwbl nawr yn fwy cyson, ond eto yn llawn sawl ffwng. I orchfygu hyn dylech ddefnyddio Potassium Permanganate i burhau'r dŵr bob tro rydych yn dyfrhau. Mae hwn yn rhad iawn ac mae 10 gram o'r powdwr hyn yn ddigon am flynyddoedd ond erbyn heddiw, am wn i, dim ond ar y 'WE' chi'n medru ei brynu. Rwy'n deall fod yr holl hyn yn dipyn o ffwdan a gallwch hefyd ddefnyddio PP i olchi popeth yn lân, yn enwedig casgenni sydd wedi bod yn llawn dŵr sydd wedi ei ddal o do'r tŷ dros y gaeaf.

Os am fwy o fanylion am yr uchod, holwch drwy Y Cardi Bach a phob lwc a bendith i bawb dros y flwyddyn newydd.



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu barhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol. Dyma gyfle i edrych yn ôl ar ddiwedd 2020 ac edrych ymlaen at sesiynau newydd a chyffrous 2021. Yng nghanol prysurdeb Nadolig gwahanol iawn yn 2020, llwyddodd y Fenter i greu naws Nadoligaidd yn rhithiol. Cynigwyd sawl sesiwn yn cynnwys Noson Creu Torch Drws Nadolig gyda Wendy Davies, Blodau Blodwen a Noson Cyd-goginio Pryd Nadoligaidd gyda Lisa Fearn, Y sied.

Dyma ddyfyniad gan un wnaeth fynychu'r sesiwn yma:

Noson Cyd-goginio:

"Braf oedd treulio nos Wener cyn y Nadolig yn cymdeithasu ar Zoom gyda chriw o wynebnewydd. Rwyf wedi mynychu sesiynau gyda Lisa o'r blaen a wedi gweld eisiau mynychu sesiynau coginio dros gyfnod y pandemig. Nod y sesiwn oedd coginio pei Nadoligaidd gyda saws llugaeron, a chafom gyfle i holi cwestiynau yn ystod y sesiwn. Fe wnes i fwynhau bod y sesiwn yn Gymraeg gan fy mod yn siarad Saesneg yn y cartref a ddim yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mor aml a hoffwn. Bonws hefyd oedd bod y gŵr wrth ei fodd gyda swper blasus. Diolch MGSG am drefnu"

Groto Siôn Corn:

Dros dau benwythnos bu plant Gorllewin Sir Gâr yn cwrdd â ac yn sgwrsio gyda Siôn Corn dros Zoom. Roedd y teuluoedd yn fwrwm i gyd i gael holi Siôn Corn am ei drefniadau ac i gael esbonio pa anrhegion neu beth yn union hoffen nhw ei gael y Nadolig hwn. Diolch am ymuno gyda ni a gobeithio fod pawb wedi mynd i'w gwely'n gynnar ar noswyl Nadolig ac y daeth Siôn Corn â digon o lawenydd i'ch cartrefi.

Cornel Creu Nadolig ar y cyd gyda'r Atom:

Ar fore Sadwrn y 19eg daeth criw ifanc a brwd ynghyd dros Zoom i gael ychydig o hwyl Nadoligaidd.

Darllenwyd stori Nadoligaidd i'r criw Cyfnod Sylfaen a chrëwyd mygdau Nadoligaidd. Yna, daeth

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adelladwyr DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gâr, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

tro'r criw hŷn! Darllenwyd y stori 'Nadolig' a daeth cyfle iddyn nhw hefyd i fod yn greadigol a chreu cymeriadau allan o'r stori.

Diolch i bawb a fynychodd ac am gefnogi un o weithgareddau Nadolig Menter Gorllewin Sir Gâr. Gobeithiwn drefnu mwy o weithgareddau tebyg yn y flwyddyn newydd.

Hyfforddiant Digidol i Rieni:

Rydym fel Menter wedi bod yn cynnig hyfforddiant digidol i rieni ar systemau'r plant sy'n cynnwys rhagleni megis Teams, Google Classrooms, Google Drive a Hwb. Rydym yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw ysgol fyddai'n hoffi cynnig yr hyfforddiant hwn i'w rhieni. Wrth gamu mewn i 2021 mae sesiynau'r Fenter wedi ail-gychwyn.

Sesiynau cymorth digidol:

Ar ddechrau blwyddyn newydd beth am ddysgu sgiliau newydd?! Rydym fel Menter yn cynnig cymorth digidol. Gallwn gynnig cymorth i chi ddefnyddio unrhyw ddy-fais neu i'ch helpu i ddatblygu unrhyw sgiliau digidol. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu gyda ni a gallwn gynnig cymorth 1 i 1 i chi dros y ffôn neu dros Zoom.

Eisiau help gyda:

Ffôn symudol · Tabled · Cyfrifiadur · Apiau · e-bost · Y rhyngwyd · Gwasanaethau ar-lein · Zoom · Skype Facebook · Twitter · Instagram · WhatsApp · Canva Snapchat · Kahoot...neu os oes gennych unrhyw anghenion eraill cysylltwch gyda ni am sgwrs. Cysylltwch ar 07939 962042 neu e-bostio ceris@mgsg.cymru i drefnu eich sesiwn.

Os rydych yn chwilio am gyfleoedd i gymdeithasu neu ymarfer eich Cymraeg mae nifer o sesiynau ar gael drwy'r Fenter gyda'r nos.

Clybiau Darllen:

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu dau glwb darllen sy'n cwrdd unwaith y mis ar-lein. Mae Clwb Darllen i oedolion yn cwrdd bob trydedd nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar nos Fawrth olaf pob mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes.

Sgyrsiau Cefn Gwlad:

Mae'r Fenter yn falch o allu cydweithio gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr i gyflwyno cyfres o 'Sgyrsiau Cefn Gwlad'. Cyfle i ddod ynghyd ar-lein i wrando ar siaradwr gwadd yn trafod amryw o bynciau. Bydd cyfle hefyd i holi cwestiynau. Eisoedd, rydym wedi cynnal dwy

noson lwyddiannus yng nghwmni Meinir Howells a Jin Talog. Rydym yn cwrdd nos Fercher unwaith y mis (dyddiad i'w gadarnhau) am 7:30yh. Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am fanylion ein siaradwr nesaf.

Coffi a Chlonec:

Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore ddydd lau am 10.30yb. Mae'r gweithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. Croeso cynnes i bawb.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth:

A oes diddordeb gennych chi mewn tynnu lluniau ar eich ffôn neu gamera? Mae'r Fenter yn trefnu cystadleuaeth ffotograffiaeth wythnosol ar gyfer oed Cynradd, Uwchradd ac oedolion gyda themâu amrywiol. Gwybodaeth lawn i weld ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Fenter.

Clwb Joio Drama:

Rydym wedi dechrau clwb newydd yn ystod y cyfnod yma ar y cyd gyda Theatr Genedlaethol Cymru i blant blyneddododd 2, 3 a 4 rhwng 5:00 a 6:00 ar nos Fercher. Clwb sydd yn cynnig cyfle i blant ddatblygu sgiliau a magu hyder mewn awyrgylch hamddenol. Cysylltwch gyda'r Fenter am fwy o fanylion.

Llwyddiant lleol:

Yn flynyddol mae'r Fenter yn cydweithio gyda Cyngor Tref Caerfyrddin i gynnal Cystadleuaeth dylunio Carden Santes Dwynwen. Mae'r wobwr yn cynnwys basged Masnach Deg a'r cardiau wedi'u hargraffu ar gyfer yr ysgol. Hoffai'r Fenter longyfarch enillwyr cystadleuaeth 2020 sef Wil Elliott o Ysgol y Bedol (Cyfnod Sylfaen) a Morgan Gould o Ysgol y Castell (Cyfnod Allweddol 2).

Cyfryngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein, o sesiynau stori, gweithgareddau crefft, gweithgareddau coginio, chwil eiriau a sesiynau ffitrwydd. Am y diweddaraaf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru

Neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris dros y ffôn: 07939 962042.



AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

 **ECA** CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUINIO

BOOMERANG

SIGN & DESIGN

 **01239 832 014**

sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO





YSGOL MEIDRIM

Croeso nôl i'r disgyblion i gyd. Ein thema ar gyfer tymor yr Hydref oedd lliwiau, gan edrych ar yr Enfys a'r oriel.

Mae'r tymor wedi bod yn brysur tu hwnt, gyda nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle. Cynhaliwyd Cwis Dim Clem yn rithiol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 dechrau Tachwedd. Rhaid dweud, agos iawn bu'r sgor rhwng y timoedd yn y dosbarth. Da iawn chi.

Cynhaliwyd gweithgareddau 'diwrnod aer glan' yn ein ysgol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleihau llygredd yn yr amgylchedd. Bu'r disgyblion CA2 yn cynnal arolwg trafniadaeth yn y bore, ac yn y prynhawn adeiladwyd calon allan o blastig.

Ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen, bu'r disgyblion yn cerdded milltir y dydd am wythnos fel rhan o weithgareddau 'actio eich oedran.' Prynodd y dosbarthiadau hwyaden yr un. (enwau'r hwyaid). Joe Wicks. Casglwyd £200 tuag at yr achos. Diolch yn fawr iawn i chi.

Cafwyd nifer o dasgau gwahanol i ddathlu bywyd a gwaith T.Llew Jones. Bu rhai yn creu llinell amser tra bo eraill yn mynd am helpa gwybodaeth o amgylch y dosbarth.

Wrth gwrs, rhaid cofio am ddiwrnod Shwmae 'Su'mae. Cyfle i godi ymybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Bu'n ddiwrnod llawn hwyl drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a chyfle i greu 'dwlds' Shwmae Shwmae.

Diwrnod Gwyddoniaeth y Byd. Defnyddio technoleg virtual t. i ddysgu am y corff. Defnyddio brawd i ddysgu am lledaeniaid germau. Creu cyflwyniad ar wyddonwyr sydd wedi cyfrannu at y byd meddygol.

Wythnos diogelwch y ffordd – Trefnwyd bod yr Heddlu yn cynnal arolwg cyflymder tu allan i'r ysgol. Cafwyd trafodaeth ynglyn â phwysigrwydd peidio gor-yrro. Yn ystod ein amser tu allan i'r ysgol, gwelwyd bod $\frac{3}{4}$ y ceir a oedd yn pasio yn torri'r cyfyngder cyflymder tu allan i'r ysgol. Yn y prynhawn, bu'r disgyblion yn cynllunio arwydd ar gyfer annog gyrrwyr i arafu tu allan i'r ysgol.

Blwyddyn Newydd Dda.

YSGOL BANCYFELIN

Dathlu'r Nadolig

Roedd dathlu'r Nadolig ychydig yn wahanol yn Ysgol Bancyfelin eleni, fel ym mhob ysgol arall. Fodd bynnag, cafwyd cinio blasus dros ben gyda Nesta yn ôl yr arfer ac ar ddiwrnod y parti Nadolig, roedd y plant yn falch iawn i weld Siôn Corn yn gyrru heibio'r ysgol, a diolch iddo am adael siocledi ar gyfer y plant. Gan nad oedd yn bosib cynnal cyngerdd Nadolig eleni, paratowyd fideos bach ar themau'r Nadolig gan ddisgyblion Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan. Rhyddhawyd rhain yn ddyddiol ar ffurf calendr Adfent ac maent ar gael o hyd i'w gweld ar safle Facebook Pobl Bancyfelin.

Blwyddyn Newydd Dda

Dymuna disgyblion a staff yr Ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd dda iawn i bawb yn yr ardal.

YSGOL BRO BRYNACH

Mwynhaodd y plant y parti misol ar ddiwedd mis Tachwedd. Cafwyd cyfle i fwynhau'r bwyd parti ac ymgymryd mewn gweithgareddau a gemau parti amrywiol er mwyn dathlu penblwyddi eu gilydd.

Ar yr 11eg o Ragfyr, mwynheuodd y plant wyllo Pantomeim ar lein o'r enw 'Robin Hood and his socially distanced men'. Er ei fod yn wahanol i'r arfer, braf oedd

**GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT
Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

gweld y plant yn ymuno gyda'r canu a'r gweithgareddau, ar ôl blwyddyn o weithio'n galed.

Yn anffodus gyda chyfyngiadau COVID-19 nid oedd yn bosib i'r ysgol berfformio Sioe Nadolig fel arfer. Yn dilyn hyn, roedd y plant yn awyddus i godi calon a lledaenu ysbryd y Nadolig yn ein cymuned leol. Buont yn brysur yn cynllunio a pharatoi Calendr Adfent Nadolig i bawb i fwynhau yn ddiogel o'u cartref. Cafodd yr holl ddisgyblion hwyl wrth ymarfer amryw o berfformiadau gwahanol. Cawsant gyfle i ddatblygu sgiliau newydd wrth recordio Stori'r Geni, canu caneuon Nadoligaidd, rhannu jôcs, traddodiadau Nadolig ar draws y Byd a llawer mwy. Cyflwynwyd deunaw diwrnod o hwyl yr Wyl, gan atgoffa pawb am wir ystyr y Nadolig.



Dyma lun o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi gwisgo fel cymeriadau stori'r geni ar gyfer Calendr Adfent.

Croeso i Miss Amber Edwards, athrawes newydd dosbarth Meithrin a Derbyn a hefyd i'r disgyblion newydd sydd yn dechrau yn y meithrin sef Alys, Sam, Izzy, Rhydian a Mirabelle. Croeso cynnes i chi gyd, mwynhewch eich cyfnod yn Ysgol Bro Brynach.

YSGOL GRIFFITH JONES

Siarter Iaith



Fel rhan o'n hymrwymiad i Siarter Iaith Sir Gâr bu tim o ddisgyblion dosbarth Pwyll yn cystadlu yn Cwis Dim Clem Menter Iaith Sir Gâr. Gwnaeth y tim yn wych i lwyddo yn rownd 1 gan fynd ymlaen i gystadlu wedyn

yn rownd 2. Yn anffodus bydd yn rhaid aros am dipyn nawr cyn darganfod canlyniadau rownd 2 yn sgil y cyfnod clo. Llongyfarchiadau gwresog i'r tim sef Jac Morris, Erin Evans, Tomos Jones a Heidi Chapman.

Gweithgareddau rhithiol

Bu dosbarth Pwyll yn cymeryd rhan mewn sesiwn farddoni ddigidol gyda'r bardd Anni Llŷn. Roedd y gweithdy yn rhan o 'Daith Sgriblwyr Gŵyl y Gelli'. Bu'r sesiwn yn sbardun ar gyfer creu ein cerdd Nadolig. Os am fwynhau'r gerdd ewch i gyfry Trydar yr ysgol lle mae perfformiad ohoni gan y dosbarth.

Mwynhaodd dosbarth Pwyll sesiwn rithiol gyda'r Llyfrgell Genedlaethol dan arweiniad Rhodri Morgan. Cawsant gyfle i weld y copi gwreiddiol o awdl y bardd Hedd Wyn a enillodd gadair Eisteddfod Penbedw iddo yn 1917, er ei fod wedi colli ei fywyd ar faes y gad wythnosau yngnghynt. Bu Rhodri yn cyflwyno hanes trist y Gadair Ddu ac fe gafodd y plant gyfle i holi cwestiynau am fywyd y bardd.

Bu'r plant hefyd yn mwynhau perfformiadau dyddiol Cwmni Theatr Na Nog wrth iddynt gyflwyno calendr

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Robert James
Efailwen, Clunderwen
01994 419735
Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
Ystafell ychwanegol i eistedd 70
ar gyfer bob achlysur.

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Adfent digidol ar lein i'r plant. Mwynhaodd y plant wyllo'r golygfeydd Nadoligaidd gan yr actorion a oedd yn llawn hwyl a direidi.

Cyngor Ysgol



Fe drefnodd y Cyngor Ysgol fod yr ysgol yn gwneud cyfraniadau tuag at Fanc Bwyd Hendygywyn. Diolch i'r holl rieni a ddanfonodd gyfraniadau at yr achos, fe lwyddwyd i'w rhannu gyda'r Banc Bwyd erbyn y Nadolig.

Nadolig

Mwynhaodd y plant ginio Nadolig blasus ac fe lwyddwyd i gael partion unigol yn y dosbarthiadau. Bu pob dosbarth wrthi'n mwynhau creu crefftau Nadoligaidd gyda dosbarth Gwenllian yn ysgrifennu llythyron at Sion Corn. Bu'r cyngerdd Nadolig yn wahanol iawn eleni hefyd gyda phob dosbarth yn paratoi eitem ddigidol a rannwyd gyda'r rhieni ar lein. Am flas o rai o'r perfformiadau ewch i gyfri Trydar Ysgol Griffith Jones.

Diolch yn fawr i Gyngor Tref San Clêr am eu rhodd i bob un o blant yr ysgol. Diolch i'r GRaFF hefyd am

drefnu rhoddion caredig iawn i staff yr ysgol i ddiolch iddynt am eu gwaith, ar ôl tymor heriol iawn.

Clo Mawr Unwaith Eto

Wrth i'r athrawon ddechrau yn ôl yn yr ysgol ar Ionawr y 4ydd fe ddaeth y newyddion ein bod yn dechrau ar gyfnod clo unwaith eto gan olygu bod yr ysgol yn cau eu drysau i'r mwyafrif o'r disgyblion. Bydd yr athrawon yn cyflwyno addysg i'r plant ar lein am y tro. Serch hynny bydd yr ysgol yn parhau i gynnig gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus. Croesawyd 14 o blant newydd i'r Dosbarth Meithrin ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Pob lwc iddyn nhw i gyd ar ddechrau eu siwrnai gyda ni er taw o bell y byddwn yn dod i'w hadnabod am y tro. Ond mae'r croeso iddynt yr un mor gynnes.



Coginio

Winnie James Phillips

TORTH SAWRUS

Cynhwysion:-

1. Un winwsin bach
2. ½ pwys (225g) o gig eidion wedi ei falu
3. 4 owns (125g) o gig selsig
4. Ychydig o berlysiau sych
5. Halen a phupur
6. 1 wy wedi ei guro
7. 2 wy wedi eu berwi'n galed.

DULL

Torri'r winwsin yn fân.

Cymysgu gyda'r cigoedd a'r perlysiau

Dod â'r cyfan at eu gilydd gyda'r wy.

Rhowch y gymysgedd mewn tun (wedi rhwbio ychydig o olew) maint ½ pwys.

Os byddwch yn defnyddio wyau wedi eu berwi, rhowch nhw ynghanol y gymysgedd a gweddill y cig ar y top. Gorchuddiwch gyda phapur gwrth-saim.

Pobwch mewn ffwrn gweddol dwym (180°C / 350°F) am un awr. Pan fydd yn barod, arllwyswch unrhyw fraster, a throwch y dorth i blat. Gweinyddwch yn dwym neu'n oer.

Cyfraniad

Cyng. Jean ac Ambrose Lewis, Meidrim

£50

Diolch yn fawr

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

olew oil
Trefigin
EST. 1982
Y Gwasanaeth sy'n Gwrsogi
THERMATIC TY
DIESEL
DIESEL FLUID
LUBRICANTS
HEATING OIL
DIESEL
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
Teuluol, lleol, Cymraeg
01282 881650
www.trefigin-cymru
01282 881282



**ARBENNIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**

MOT

♦CEIR♦BEICIAU MODUR♦FANIAU♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



ARBENIGWYR LAND ROVER YN SAN CLÊR, SIR GÂR
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SBAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod • Sglodion • Risols
Selsig • Cyw lân • Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 21.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



Cornel Llên

Llyfrau:

PLETHU gan Rhian Cadwaladr.




Mae'n braf cael nofel i ddarllen yn ystod y dyddiau unig yma. Mae'r awdur wedi ysgrifennu nifer o nofelau erbyn hyn – mae'n actor, sgriptiwr a thiwtor drama – ei chyfrol gyntaf i blant oedd Nain Nain Nain. Mae'r nofel hon yn stori deuluol – Elin, ei dwy ferch sy'n ymdopi oddiar i Elin adael ei gŵr – ac nid yw ei phenderfyniad i fynd i fyw i'r Iwerddon gyda'i hen ffrind yn fêl i gyd.

Mae'r ddwy ferch yn glynu wrth eu tad – all hi lwyddo i blethu dau deulu mewn dwy wlad neu a fyddai'n haws iddi ildio a dychwelyd adref?

PLETHU: Gwasg Carreg Gwalch.

ABERTEIFI. gan Y Prifardd Ceri Wyn Jones



Mae'r awdur yn adnabod Aber-teifi yn dda gan ei fod yn byw yno.

Mae ynddo luniau lliw hyfryd gan Richard Outram o'r ardal ac mae Ceri Wyn Jones yn son am fannau o Aber-

teifi nas gwelir gan bawb heblaw am hanes y dref ar hyd y blynyddoedd e.e fel mae ardal y Mwldan wedi newid o fod yn 'slym' ar un cyfnod i'r lleoliad mae 'Theatr Mwldan' heddiw. Mae'n lyfr mawr, trwchus yn sôn am y dref a'r wlad.

ABERTEIFI: Gwasg Carreg Gwalch. Pris £14: 50

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855



**Login
Hendygywyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Croeso i'n dewis o wibdeithiau, gwibdeithiau theatr, gwyliau byr a gwyliau ar gyfer 2021/2022 Mae rhywbeth at ddant pawb. Gofynnwch am gopi o'n pamffled neu ewch ar-lein am fanylion llawn. Mae'r tîm yma yn Jones Login yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl ar fwrdd yn 2021 a thu hwnt.

Nifer o ddyddiau			Nifer y dyddiau		
Ebrill			Tachwedd		
Maw 6	Taith Ddirgel	1	Llun 15	Noson yng Nghwmni :-	1
Llun 19	Trysorau Swydd Caer - Halen, Sebon a Sidan	5		Tim Peake - Fy'n Nhaith i'r Gofod, NDS	
Maw 27	Locks, Stock a'r BBC	5	Iau 18	Cyngerdd Katherine Jenkins, NDS	1
			Sad 20	Sioe Gerdd Y Commitments, CMC	1
			Sad 27	Sioe Gerdd Sister Act, CMC	1
			Sad 27	Nadolig ar y Coblau:	2
				Coronation Street - Y Daith	
Mai			Rhagfyr		
Llun 17	Efrog - A Ramble in the Shambles	5	Sad 4	Sioe Gerdd Strictly Ballroom, The Musical, CMC	1
Sad 22	Sioe Strictly Come Dancing - The Professionals, AMC	1	Sad 4	Nadolig Windsor	2
			Sad 11	Sioe Gerdd Cyfnod y Nadolig,	1
				(Sioe i'w gadarnhau!) CMC	
Mehefin			Sad 11	Longleat - Gwyl Olau	2
Maw 1	Taith Dirgel	1	Sad 11	Siopa Nadolig Trago Mills, Merthyr	1
Sad 5	Safari Siocled	2	Iau 23	Nadolig yn Bournemouth	5
Llun 7	Gwesty Warner - Cricket St. Thomas	5			
Mer 16	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3			
Llun 21	'Brighton' up you week on the South Coast	5			
Sad 26	Sioe Gerd School of Rock, CMC	1			
Llun 28	Potter around the Shires	5			
Gorffennaf			Ionawr 2022		
Sad 3	Sioe Gerdd Les Misérables, CMC	1	Sad 22	Sioe Gerdd	1
Llun 5	Iwerddon - Sligo a'r Wild Atlantic Way	6		The Lion, The Witch & The Wardrobe, CMC	
Iau 15	Cernyw - The Quay to Cornwall	5			
Maw 20	Sioe Frenhinol Cymru	1			
Mer 21	Sioe Frenhinol Cymru	1			
Iau 22	Yr Alban - Taith Mawreddog	9			
Sad 24	Sioe Gerdd We Will Rock You, CMC	1			
Awst			Gorffennaf 2022		
Llun 2	Eisteddfod Genedlaethol	1	Sad 9	Sioe Gerdd Y Lion King, CMC	1
Mer 4					
Gwe 6					
Iau 12	Castell Highclere - 'Downton Abbey'	2			
Sad 14	Sioe Gerdd Waitress, CMC	1			
Maw 31	Taith Ddirgel	1			
Medi					
Gwe 3	Kynren - An epic tale of England	4			
Sad 4	Sioe Riverdance - Penblwydd 25, NDS	1			
Iau 9	Paint a picture in Constable Country	5			
Gwe 17	Gwesty Warner - Castell Bodolwyddan	4			
Mon 27	Devon on Earth	5			
Hydref					
Mon 4	Gwesty Warner - Neuadd Thoresby	5			
Thu 14	Concorde, Castles & Codebreakers	5			
Wed 13	Cyngerdd Daniel O'Donnell, NDS	1			

Mynegai math o daith a lleoliadau:
Gwibdaith / Gwibdaith Sioe neu Chyngerdd
Gwyliau Byr a Gwyliau
CMC = Canolfan Mileniwn Cymru / NDS = Neuadd Dewi Sant /
AMC = Arena Motorpoint, Caerdydd

Llyfryn 2021 ar gael nawr!
Ffoniwch 01437 563277 i fynegu gopi neu
gwelwch ar lein @
www.joneslogin.co.uk/media/1151/2021-brochure.pdf

Gwasanaethau eraill:
Bysiau 8 - 70 sedd i'w llogi ar gyfer busnes neu bleser.

Teithlenni wedi'u gwneud yn benodol, trefniadau a chyflenwad gwasanaethau trydydd parti fel tocynnau a llety ar gyfer gwibdeithiau, teithiau a gwyliau i grwpiau preifat a sefydliadau.

NEWYDDION
Cyfleuster archebu ar-lein yn dod yn fuan !!!



Gellir trefnu Mordeithiau Fred Olsen ar eich rhan. Mae argaeledd a phrisiau ar gais a byddent yn cynnwys trosglwyddiadau o ddrws i ddrws ac o'r porthladd. Ewch i:
www.fredolsencruises.com



Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!



Y CARDI BACH CLWB 200



£500, £300, £200 a £100

A llawer o wobrwynon llai i'w hennill bob Mis Chwefror
Hefyd cyfle i ennill naill a'i £20 neu £10 deng waith y flwyddyn

Cewch gyfle i ennill £5 wrth ddatrys pôs neu gwis John Arfon ym mhob rhifyn

Annwyl ffrindiau

Gobeithio y gwnewch ymuno â'r CLWB 200 eleni eto. 'Rwyf yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch sydd yn aelodi'n ffyddlon, ac yn gwerthfawrogi eich parodrwydd i gefnogi 'Y CARDI BACH' bob blwyddyn. Fel y gwyddoch, mae'ch cefnogaeth yn agenrheidiol i sicrhau dyfodol ein papur bro.

Felly danfonwch y ffurflen gais isod, (neu yr Archeb Banc a welwch drosodd, neu defnyddiwch y manylion banc os ydych am dalu o'ch banc ar eich cyfrifiadur) os gwelwch yn dda, er mwyn bod yn siwr o gael pob cyfle i ennill y gwobrwynon misol.

Roedd 640 o aelodau yn 2020 ac fel trysorydd y clwb, edrychaf ymlaen am flwyddyn lewyrchus unwaith eto.

Pob hwyl a diolch yn fawr,

Rhian

Yn ogystal â siec ac arian, mae croeso i chi dalu, os ydych yn dewis drwy
Archeb Banc (trosodd) neu taliad ar-lein (BACS)

Manylion y Cyfrif : Côt didoli - 40-46-27 Rhif y Cyfrif - 91020765
PWYSIG!! Cofiwch ddefnyddio'ch enw fel cyfeirnod (reference)

Clwb 200 Y Cardi Bach - 2021

Amgaeaf £10 er mwyn ymuno â'r Clwb 200 (Sieciau yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach')

Enw / Enwau _____

Cyfeiriad _____

Côt Post _____

Llofnod _____ Dyddiad _____

Cofiwch os yw'ch amgylchiadau wedi newid (e.e. cyfeiriad, enw tŷ a.y.y b.), rhwch wybod i mi

Ticiwch
os yn talu
drwy BACS



Anfonwch y ffurflen i: *Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr. SA33 4JZ*
Ffôn: 01994 231338 • e-bost: *rhian-white1@hotmail.co.uk*



Y CARDI BACH CLWB 200



ARCHEB BANC

I Fanc

Cangen

Cyfeiriad

.....

.....

*Talwch os gwelwch yn dda i

Fanc HSBC plc
15 Stryd Lammas
Caerfyrddin
SA31 3AQ

Rhif didoli:

40	46	27
----	----	----

Rhif Y CYFRIF: **91020765**

Enw'r cyfrif: CLWB 200 Y CARDI BACH

Y swm o £10 ar y 1af o..... 2021 a'r un swm o hynny ymlaen ar y 1af o Ionawr, bob blwyddyn hyd y byddaf yn dileu yr archeb hon yn ysgrifynedig.

Enw:

Cyfeiriad:

.....

Côd Post:

Enw'r Cyfrif:

Rhif y Cyfrif

Llofnod: Dyddiad:

Anfonwch y ffurflen at: Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr. SA33 4JZ

Ffôn: 01994 231338 • e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk



Carthenni Cynnes



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro



Gan bod mis Ionawr yn oer, oer, mae
Glanwen y ddafad wedi gwau carthen
patrwm calonnau i Mam-gu Iet-wen
fel anrheg Santes Dwynwen.
Sawl calon welwch chi ar
y garthen arbennig?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/2/21

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2021



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth
yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn
nesaf.



PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Gwen Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymymch a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 3 oed ar Dachwedd y 30ain. Hefyd penblwydd hapus i Lleucu Rees oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 1 oed ar Ionawr y 31ain. Cariad mawr wrth, Dad, Mam, Megan, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, Mamgu a Dadcu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Penblwydd hapus Luned yn 5 oed, cariad mawr Dadi, Mami, Aneurin, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch.



Penblwydd Hapus i Rhys Biggs o Warrington a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 8 oed ar Ionawr 15fed gan obeithio ei weld yn fuan. Gyda llawer o gariad wrth Dadi, Mami, Glyn, Mamgu a Datcu Blaenffynnon a'r teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i Cerys Cleaver a fydd yn 6 oed ar Chwefror 5ed ac i'w brawd Tomi a fydd yn 4 oed ar Chwefror 21ain. Mae'r ddau yn byw yn Adelaide, Awstralia. Daw'r cyfarchion oddi wrth Mamgu San Cler ac wncwl Alun, Datcu a Mamgu Dre, Anti Steph, Wncwl Paul a Josh.



Penblwydd Hapus iwn i Ema fach yn 2 flwydd oed ar yr 8fed o Ionawr. Merch Nia a Robert, wyres i Delyth a Michael Roblin Glynty Farm.